Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Betws yn Rhos
## Betws yn Rhos
## Abergele
## LL22 8AP

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/08/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Betws yn Rhos wedi ei lleoli ym mhentref Betws yn Rhos, rhyw bum milltir o dref Abergele.  Mae'n ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Conwy.

Mae 66 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 13 o blant meithrin rhan amser.  Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos.  Bu niferoedd y disgyblion yn weddol gyson dros y tair blynedd ddiwethaf.

Daw 40% o'r disgyblion o aelwydydd Cymraeg.  Addysgir y disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dymuniadau'r rhieni.  Anelir at sicrhau bod disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd.  Mae bron y cyfan o'r disgyblion o gefndir Gwyn Prydeinig.

Mae 5.7% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, canran sy'n llawer is na'r ffigurau sirol a chenedlaethol.  Mae 11.3% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, gyda 2% ar ddatganiad.  Mae'r ffigurau hyn yn is na chyfartaleddau cenedlaethol.  Ni chofnodwyd unrhyw waharddiad parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers Medi 2004.

Y gyllideb fesul disgybl ar gyfer Ysgol Betws yn Rhos yn 2011-2012 yw £3,926.
Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Conwy yw £13,941 a'r lleiafswm yw £2,935.  Mae Ysgol Betws yn Rhos yn safle 31ain allan o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Conwy o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Betws yn Rhos yn dda gan fod:

- gweledigaeth y pennaeth a strategaeth glir yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, lles a darpariaeth ar draws yr ysgol;
- dwyieithrwydd yn gryfder ac yn rhan naturiol o fywyd yr ysgol;
- y disgyblion yn gwneud cynnydd da dros gyfnod o amser;
- safonau ymddygiad a phresenoldeb yn dda iawn; a bod
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn cymharu'n ffafriol â'r teulu o ysgolion a Chymru dros gyfnod o amser;
- gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n cael ei rhannu'n llwyddiannus â'r staff, rhieni a llywodraethwyr;
- yr ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol a'u gweithredu'n effeithiol;
- y corff llywodraethol yn gosod cyllideb yn ofalus, yn cytuno ar flaenoriaethau ariannol ar gyfer y flwyddyn ac yn monitro'r gwariant yn effeithiol; a bod
- gan yr ysgol bartneriaethau strategol da gyda rhieni, y gymuned a mudiadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

## Argymhellion

Dylai'r ysgol:

A1 parhau i godi safonau darllen yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2;

A2 gwella'r ymateb i waith ysgrifenedig disgyblion er mwyn rhoi arweiniad penodol ar yr hyn i'w wneud i wella eu gwaith;

A3 sicrhau fod staff yr ysgol yn defnyddio data yn fwy effeithiol i adnabod cynnydd a chynllunio ar gyfer gwelliant;

A4 datblygu rôl y llywodraethwyr i herio'r ysgol am safonau; a

A5 sicrhau bod targedau o fewn y cynllun datblygu'r ysgol yn fwy meintiol er mwyn mesur cynnydd.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn paratoi cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion uchod.  Bydd Estyn yn gofyn i'r awdurdod lleol i adrodd ar gynnydd yr ysgol yn erbyn argymhellion ymhen blwyddyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn barod iawn i gyfrannu mewn trafodaethau ac i gynnig sylwadau. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol iawn, ac yn mynegi eu hunain yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r modd y mae disgyblion yn datblygu hyblygrwydd yn eu defnydd o'r ddwy iaith yn gryfder ac yn rhan naturiol o fywyd yr ysgol. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd, gyda'r disgyblion sydd o gartrefi di-Gymraeg yn dod yn rhugl yn fuan.

Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd. Mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn ar y Gymraeg sy'n briodol i'w hoedran. Cyfranna'r rhan fwyaf yn frwdfrydig mewn trafodaethau dosbarth gan ddefnyddio geirfa addas o fewn cyd-destun penodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu darllen. Maent yn darllen gyda mynegiant a dealltwriaeth ac yn barod iawn i drafod agweddau megis cymeriadau a chynnwys.

Mae rhan fwyaf y disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall mwyafrif o'r disgyblion ysgrifennu i ystod o bwrpasau gan ddangos gafael briodol o ffurf ac atalnodi sylfaenol. Mae ansawdd cyflwyniad y gwaith a llawysgrifen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen. Yn y Saesneg, maent yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol ac yn dangos hoffter at ddarllen. Serch hynny, araf yw datblygiad lleiafrif ohonynt wrth ddarllen ar goedd yn y Gymraeg. Mae bron pob un yn ymateb yn dda i'r testun a ddarllenir, ac yn ysgrifennu adolygiadau cryno a chlir am lyfrau maent wedi eu darllen Defnyddiant eu medrau cywain gwybodaeth yn dda i ddod o hyd i wybodaeth benodol o lyfr.

Mae'r disgyblion sydd wedi derbyn cymorth ychwanegol i wella eu medrau darllen yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae medrau llafar y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n briodol. Dônt yn hyderus wrth siarad am eu gwaith ac mewn sgyrsiau anffurfiol, a hynny yn y ddwy iaith.

Mae mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus mewn ystod eang o ffurfiau ysgrifenedig yn y ddwy iaith. Maent yn dangos safon briodol o ran cywirdeb iaith ac yn defnyddio ymadroddion ac ystod o eirfa yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn trefnu eu gwaith yn baragraffau ac yn ei gyflwyno'n daclus.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn canolbwyntio'n dda ac yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau a gyflwynir iddynt. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion saith oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na ffigyrau Cymru am ddwy o'r pum mlynedd ddiwethaf, ac yn uwch na'r teulu o ysgolion tebyg mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf. Mae cyflawniad y disgyblion mewn llafar Cymraeg wedi bod yn uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg am gyfnod helaeth o'r amser. Ac eithrio yn Gymraeg, nid oes unrhyw ddisgybl wedi cyrraedd lefel 3 mewn unrhyw bwnc dros y blynyddoedd diwethaf. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu dros gyfnod o amser. Mae hyn yn wir am berfformiad y disgyblion ymhob un o'r pynciau craidd. Mae cyflawniad disgyblion 11 oed mewn darllen ac ysgrifennu Saesneg yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y teulu o ysgolion a ffigyrau Cymru. Er hynny, mae cyflawniad y disgyblion mewn darllen Cymraeg ar lefel 4 wedi gostwng yn raddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Dros gyfnod o bum mlynedd mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Saesneg, yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol di-dâl.

Nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched yng nghyfnod allweddol 1. Fodd bynnag, yn nghyfnod allweddol 2, mae'r bechgyn wedi perfformio'n well na'r merched ar lefel 5 dros y tair blynedd ddiwethaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn yr ysgol yn dangos diddordeb a balchder yn eu gwaith. Maent yn arddangos hunan ddisgyblaeth dda o fewn y gweithgareddau ac yn ymateb yn frwdfrydig i dasgau a osodwyd. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn dangos cymhelliant a dyfalbarhad wrth weithio mewn grwpiau.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Dangosant barch at ei gilydd, at eu hathrawon ac at ymwelwyr. Maent yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini trwy gyfranogi mewn gweithgareddau corfforol.

Mae'r disgyblion yn ofalgar iawn tuag at ei gilydd. Trwy drefn cyfeillion 'Mêts Mawr' maent yn dangos aeddfedrwydd sy'n sicrhau bod y plant ieuengaf yn teimlo'n ddiogel. Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn arddangos medrau meddwl da wrth drafod a chyfrannu at benderfyniadau. Enghraifft o hyn yw'r gwaith a wnaeth y disgyblion i ddatblygu gardd yr ysgol.

Mae canran presenoldeb yn gyson dda ac yn uwch na chyfartaledd teulu o ysgolion tebyg a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn gyson naill ai ymhlith y 50% neu'r 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol di-dâl.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o fedrau cymdeithasol a medrau bywyd. Mae disgyblion o bob oed yn dechrau datblygu'r medrau sydd eu hangen er mwyn gwella eu gwaith eu hunain.

Trwy ystod o weithgareddau yn yr ysgol, eu cyfranogiad yn y gymuned, a'r profiadau allgyrsiol, mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd y disgyblion yn cael eu hybu'n effeithiol ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer camau nesaf mewn bywyd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau sy'n cwrdd ag anghenion yr holl ddisgyblion ac yn ymateb i'r gofynion statudol. Mae'r profiadau yn ennyn eu diddordeb ac yn eu hysgogi i ddysgu. Mae nifer o ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol yn atgyfnerthu a chyfoethogi dysgu yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion yn dda, ac mae strategaethau ymyrraeth yn cael eu cynllunio yn ofalus ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion.

Trwy gynllunio gofalus, sicrheir bod agweddau priodol o fedrau yn cael eu cynnwys a'u datblygu'n dda ym mhob gwers. O ganlyniad i hyn, mae llawer iawn o'r disgyblion yn llwyddo i ddatblygu eu medrau'n effeithiol ar draws ystod o bynciau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad medrau llythrennedd yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig wedi ei wreiddio'n ddwfn ar draws yr ysgol ac yn galluogi'r dysgwyr i wneud cynnydd da. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu dwyieithrwydd y disgyblion yn gadarn iawn. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei datblygu'n gadarn yn y gwersi a thrwy waith y cyngor eco. Sefydlwyd cyswllt agos rhwng yr ysgol a chartref i blant a phobl ifanc Edith's Home yn Uganda. Mae'r cyswllt hwn wedi dyfnhau dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson yn dda ar draws yr ysgol. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn defnyddio ystod o ddulliau a gweithgareddau i sbarduno a herio'r disgyblion. Mae'r athrawon yn rhannu nodau'r gwersi yn glir gyda'r disgyblion, ac mae'r gweithgareddau wedi eu gwahaniaethu'n briodol i ymateb i anghenion y disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i atgyfnerthu'r addysgu a'r dysgu. Serch hynny, mae'r tasgau ar adegau yn rhy strwythuredig ac nid ydynt yn caniatáu i'r disgyblion feddwl drostynt eu hunain.

Mae perthynas lwyddiannus iawn yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion sy'n meithrin dysgu effeithiol ar draws y cwricwlwm lle mae elfen uchel o barch yn amlwg. Mae pob un aelod o staff yn cynnig model ieithyddol da.

Mae athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion yn y gwersi. Lle mae enghreifftiau da o ymateb i waith ysgrifenedig, fe roddir sylwadau adeiladol ar sut i wella. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn gallu gosod meini prawf llwyddiant ac asesu eu gwaith eu hunain yn unigol a gyda chymheiriaid yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn asesu gwaith yn briodol gan nodi cynnydd disgyblion yn glir. Mae'n gwneud defnydd effeithiol o asesiadau i dracio cynnydd disgyblion ac i ddarparu cefnogaeth ychwanegol yn ôl yr angen. Drwy adroddiadau a chyfarfodydd rheolaidd, mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth briodol am gynnydd a chyflawniad eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn briodol. Caiff iechyd a ffitrwydd y disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol gan glybiau chwaraeon amrywiol a chynllun bwyta'n iach yr ysgol. Mae'r cyfan yn rhan gynhenid o fywyd bob dydd yr ysgol.

Caiff holl ddisgyblion yr ysgol gyfleoedd niferus i gyfrannu i fywyd yr ysgol ac ymfalchïant yn y cyfleoedd hynny.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda ac yn meithrin gwerthoedd yn seiliedig ar onestrwydd, tegwch a pharch at eraill.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan amlwg yng ngweithgareddau'r gymuned. Mae cysylltiadau hyn yn gryfder sy'n arwain at safonau uchel o fedrau cymdeithasol ac ymrwymiad mewn gweithgareddau diwylliannol lleol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau allanol ac o ganlyniad mae ansawdd y gofal a'r gynhaliaeth i'r disgyblion hyn yn dda. Defnyddia'r ysgol ystod o strategaethau yn effeithiol i fodloni anghenion grwpiau gwahanol o ddisgyblion. O dan arweiniad cydlynydd effeithiol, mae'r ysgol yn adnabod y disgyblion sydd angen cymorth dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae'r ysgol yn darparu cynlluniau addysgu unigol sy'n gosod targedau clir, penodol a mesuradwy. Caiff y rhain eu hadolygu a'u monitro'n gyson ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ethos cynhwysol iawn y mae'n ei greu. Mae'r ysgol yn gymuned glos a chroesawgar iawn a cheir awyrgylch gynnes ymhlith y staff a'r disgyblion. Dengys pawb barch tuag at eraill. Mae polisiau a gweithdrefnau clir yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r adeiladau a'r adnoddau. Gwneir defnydd effeithiol o'r neuadd gymunedol gerllaw a'r adnoddau allanol i sicrhau mynediad

llawn i holl agweddau'r cwricwlwm. Mae arddangosfeydd lliwgar a symbylus yn cyfoethogi'r addysgu a'r dysgu'n dda. Mae'r toiledau'n lân ac yn addas a chaiff y safle a'r adeilad eu cadw'n raenus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n llwyddo i rannu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus â'r staff, rhieni a llywodraethwyr. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'r staff ac mae hyn yn treiddio drwy fywyd yr ysgol. Enghraifft o hyn yw'r ffordd mae'r athrawon yn addysgu'n effeithiol trwy'r Gymraeg a'r Saesneg. O ganlyniad mae medrau dwyieithrwydd y disgyblion yn datblygu'n arbennig o dda.

Mae gan bob aelod o'r staff ddisgrifiadau swyddi priodol ac mae eu cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir. Trwy gydweithio effeithiol, a rhannu gwybodaeth am gyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn dechrau gwneud defnydd o ddata er mwyn gweithredu ar flaenoriaethau gwelliant. Mae'r corff llywodraethol yn yn gefnogol iawn i fywyd yr ysgol ac yn ymwybodol o berfformiad yr ysgol yn gyffredinol. Serch hynny, nid yw dealltwriaeth llywodraethwyr o ddata ac o safonau'r ysgol wedi datblygu'n llawn i herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformiad. Mae adroddiadau cyson gan y pennaeth a'r awdurdod addysg leol, a monitro rheolaidd o'r cynllun datblygu'r ysgol, yn rhoi cyfeiriad clir i'r llywodraethwyr weithredu'n strategol.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol drwy fynd i'r afael yn benodol â chodi safonau llythrennedd a rhifedd. Mae'r Cyfnod Sylfaen bellach wedi ei sefydlu'n gadarn. Rhoddir sylw da i lais y dysgwr ymhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r broses hunanarfarnu yn darparu darlun clir o fywyd yr ysgol. Mae'n seiliedig ar ddefnydd o ystod eang o dystiolaeth ar gyfer adnabod cryfderau a materion i'w datblygu. Mae tystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau monitro addysgu a dysgu, ynghyd ag adroddiadau pynciol, yn cael eu casglu a'u defnyddio i adnabod cryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant. Serch hynny, nid yw'r athrawon yn dadansoddi ac yn defnyddio data yn ddigon trylwyr i hyrwyddo gwelliant mewn safonau dros gyfnod. Defnyddir safbwyntiau gan lywodraethwyr, rhieni, disgyblion, ac ymgynghorwyr addysgol yn effeithiol er mwyn ffurfio barn a chyfrannu tuag at nodi blaenoriaethau i'r dyfodol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi trosolwg clir o safonau ac agweddau ar gyfer gwelliant, sy'n bwydo'r cynllun datblygu'r ysgol yn uniongyrchol. Serch hynny, nid yw'r ysgol yn defnyddio'r dystiolaeth o'r hunanarfarnu yn ddigon trylwyr i bennu targedau penodol a mesuradwy ar gyfer gwelliant.

Mae'r prif flaenoriaethau'r cynllun datblygu yn canolbwyntio'n briodol ar wella addysgu, codi safonau a datblygu medrau. Caiff cynnydd ar sail y blaenoriaethau hyn eu gwirio yn dymhorol gan y llywodraethwyr, ond gan nad oes targedau meintiol clir, nid yw'n bosibl mesur y cynnydd yn ddigon manwl.

Mae'r staff addysgu yn rhan o gymuned broffesiynol leol ac mae'r cysylltiadau hyn yn cyfrannu'n effeithiol tuag at godi safonau a chyfoethogi dulliau addysgu. Mae effaith hyn wedi hwyluso sefydlu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus a hefyd wedi cyfrannu tuag at strategaethau i godi safonau llythrennedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol. Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni ar gyfer codi safonau rhifedd yn enghraifft o hyn. Paratowyd llyfryn gwerthfawr i rieni yn nodi'r gwahanol strategaethau rhif a ddefnyddir gan yr ysgol er mwyn, rhoi arweiniad iddynt ar sut i gefnogi eu plentyn. Mae hyn wedi cyfrannu'n effeithiol at wella safonau rhifedd y disgyblion.

Mae nifer o gysylltiadau gwerthfawr wedi cael eu sefydlu gydag aelodau o'r gymuned, busnesau lleol ac ysgolion cyfagos. Gwelir effaith hyn yn y defnydd a wna'r disgyblion o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn cysylltiad â gweithgareddau byd gwaith.

Mae partneriaethau effeithiol gyda'r rhieni ar gyfer codi safonau, a chynnal gweithgareddau diwylliannol Cymreig, yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae cysylltiadau effeithiol gyda chymdeithas rieni ac athrawon yr ysgol yn cyfrannu'n dda tuag at godi arian ac ar gyfer prynu a gwella ansawdd adnoddau'r ysgol.

Mae cynllunio strategol a chydweithio da a chadarnhaol gyda'r ysgol feithrin yn sicrhau fod trefniadau effeithiol a hwylus ar gyfer trosglwyddo. Ceir trefniadau effeithiol hefyd i helpu'r disgyblion hynaf drosglwyddo i'r ysgolion uwchradd.

Mae partneriaeth yr ysgol gydag ysgol uwchradd leol wedi sicrhau cysondeb a chywirdeb o fewn safoni gwaith y disgyblion mewn Saesneg a Chymraeg.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'u cysylltiadau proffesiynol â darparwyr eraill yn ogystal ag arbenigedd allanol. Arwain hyn at sicrhau fod ansawdd ac arferion da yn cael eu gweithredu ar draws yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o arbenigedd athrawon a staff cynorthwyol er mwyn cyflwyno a gweithredu pob agwedd o gwricwlwm yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gosod cyllideb yn ofalus, yn cytuno ar flaenoriaethau ariannol ar gyfer y flwyddyn ac yn monitro'r gwariant yn effeithiol.

Defnyddir yr amser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn dda gan sicrhau fod y gwersi yn cael eu paratoi yn drefnus. Mae hyn yn cyfrannu yn dda at gynnal safonau a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin y data yn ofalus gan fod canlyniadau un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ymhob blwyddyn.

Yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn uwch na chyfartaleddau Cymru am ddwy o'r pum mlynedd diwethaf ac yn uwch na'r teulu o ysgolion tebyg mewn tair o'r pum blynedd diwethaf.  Mae cyflawniad y disgyblion mewn Cymraeg wedi bod yn gyson uwch na'r teulu am gyfnod helaeth o'r amser.  Mae hyn hefyd yn wir am gyflawniad y disgyblion mewn siarad a gwrando.  Dros gyfnod o bum mlynedd, mae cyflawniad disgyblion mewn darllen ac ysgrifennu wedi amrywio ac wedi bod yn is na'r teulu.  Ac eithrio'r Gymraeg, nid oes unrhyw ddisgybl wedi cyflawni lefel 3 mewn unrhyw bwnc dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu dros gyfnod o amser, er iddo ddisgyn yn 2011.  Mae hyn yn wir am berfformiad y disgyblion ymhob un o'r pynciau craidd.

Mae'r ganran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg a Saesneg wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf.  Mae perfformiad mewn darllen ac ysgrifennu Saesneg wedi bod yn gyson uwch na ffigyrau teulu a Chymru.  Yr un yw'r patrwm yn y Gymraeg.  Fodd bynnag, mae'r canrannau mewn darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg wedi gostwng yn raddol dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Dros gyfnod o bum mlynedd, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Saesneg, yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol di-dâl am bedair o'r pum mlynedd hynny.

Mae cyflawniadau ar lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg a gwyddoniaeth wedi cymharu'n ffafriol iawn â'r teulu dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Nid oes patrwm cyson o dangyflawni bechgyn o gymharu â'r merched yng nghyfnod allweddol 1.  Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, mae'r bechgyn wedi perfformio'n well na'r merched ar lefel 5 dros y tair blynedd ddiwethaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 44 o ymatebion gan ddisgyblion. Mae'r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol, sydd o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ar gyfer pob agwedd.

Mae pob disgybl yn nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Mae 98% o ddisgyblion yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol o 92% ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae llawer yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith. Mae pob disgybl yn credu bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gadw'n iach.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 20 o ymatebion gan rieni.

Mae pob rhiant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu plant yn gwneud cynnydd da a'u bod yn cael gwybodaeth gyson am eu cynnydd sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol o 96% ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru

Mae pob rhiant yn nodi bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn cael eu hannog i gadw'n iach. Mae bron pob un yn credu fod y disgyblion yn ymddwyn yn briodol, gyda'r rhan fwyaf o rieni yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

Mae pob rhiant yn credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'u bod yn fodlon â'r ysgol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Jane Peate | Arolygydd Cymheiriaid |
| Elen Owen | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae’r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â’u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy’n byw yn 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy’n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.